Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Yn cefnogi elusennau, gwirfoddolwyr a chymunedau

7. Dod o hyd i arian a'i gael

7.4.2 Cyllid loteri

Trosolwg

Mae'r daflen wybodaeth hon yn cynnig manylion am gynlluniau grantiau Cronfa'r Loteri Fawr sydd ar gael i grwpiau a mudiadau yn y sector gwirfoddol yng Nghymru.

Cronfa'r Loteri Fawr 2006 – 2009

Bydd Cronfa'r Loteri Fawr yn rhannu mwy na £120 miliwn yng Nghymru rhwng 2006 a 2009. Mae'r holl raglenni'n rhan o genhadaeth y Gronfa i wella cymunedau a bywydau'r bobl fwyaf anghenus. Bydd tair thema allweddol i'r rhaglenni:

- Hybu dysgu yn y gymuned a chreu cyfleoedd.
- Hyrwyddo cydlyniaeth a diogelwch cymunedol
- Hyrwyddo lles.

Ategir y themâu hynny gan dri chanlyniad y mae'r Gronfa yn gobeithio eu sicrhau drwy roi cyllid:

- Rhoi i bobl o bob oed y sgiliau a'r ddysg y bydd arnynt eu hangen i wynebu her cymdeithas fodern.
- Cydweithio rhwng pobl i sicrhau cymunedau cryfach, cyfiawnder cymdeithasol ac amgylcheddau trefol a gwledig gwell.
- Pobl a chymunedau iachach a mwy gweithgar yn gorfforol.

Mae rhaglenni'r Gronfa yn perthyn i ddau faes cyffredinol: rhai strategol a rhai sy'n cael eu harwain gan y galw. Mae rhaglenni sy'n cael eu harwain gan y galw yn cymell grwpiau a mudiadau i gyflwyno eu syniadau a'u hatebion eu hun i'r Gronfa i gael cyllid.

Mae'r rhaglenni strategol yn canolbwyntio i fwy o raddau ar y math o ganlyniadau y mae'r Gronfa am eu sicrhau drwy roi cyllid, er ei bod yn dal i hyrwyddo atebion lleol i ddiwallu anghenion lleol.

Pobl a Lleoedd

Cyllideb o £66 miliwn

Mae Pobl a Lleoedd yn ceisio dod â phobl at ei gilydd i gryfhau eu cymunedau a gwella amgylcheddau trefol a gwledig. Gellir ariannu prosiectau sy'n sicrhau un neu ragor o ganlyniadau'r rhaglen:

- Adfywio cymunedau.
- Gwell cysylltiadau cymunedol.
- Gwell amgylcheddau lleol a mwynderau cymunedol.

Bydd grantiau ar gael ar gyfer prosiectau cyfalaf a refeniw a gellir eu defnyddio i ddatblygu cymunedau neu gymunedau buddiant. Maent ar gael i'r sectorau cymunedol, gwirfoddol a chyhoeddus. Y grant lleiaf fydd £5,001, a'r mwyaf fydd £1 filiwn. Nid oes dyddiad cau

Teuluoedd Iach

Cyllideb o £20 miliwn

Mae Teuluoedd Iach yn gynllun sy'n hyrwyddo ffyrdd iach a gweithgar o fyw ymysg plant a theuluoedd ac yn creu cysylltiadau rhwng chwarae plant, maethiad a gweithgarwch corfforol.

Mae Teuluoedd Iach yn cynnwys dwy raglen, Chwarae Plant a Ffordd o Fyw. Mae'r Gronfa wedi gwneud contract â dau gorff arbenigol i'w helpu i ddarparu'r ddwy raglen. Byddant yn rhoi cymorth i ymgeiswyr i sicrhau bod prosiectau'n strategol a'u bod yn ateb blaenoriaethau'r rhaglen yn ogystal â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol.

Chwarae Plant

Cyllideb o £13 miliwn

Rhaglen strategol yw hon sy'n ceisio:

- Datblygu mannau chwarae newydd i blant yn eu cymunedau.
- Datblygu cyfleoedd i chwarae sy'n caniatáu i blant ddewis sut i chwarae.
- Datblygu cyfleoedd chwarae â mynediad agored gyda staff.
- Helpu i greu rhwydweithiau cymorth cynaliadwy i hyrwyddo'r gwaith o ddatblygu cyfleoedd chwarae ledled Cymru.
- Datblygu cysylltiadau â maethiad a gweithgarwch corfforol.
- Rhoi gwybod i deuluoedd a phlant am gyfleoedd chwarae.

Mae hyd at £250,000 ar gael ar gyfer prosiectau seilwaith – y dyddiad cau ar gyfer Cylch 1 (prosiectau seilwaith a chwarae) yw 4 Mai 2007.

Mae symiau rhwng £250,000 ac £1 filiwn ar gael ar gyfer prosiectau chwarae - y dyddiad cau ar gyfer Cylch 2 (prosiectau chwarae) yw 6 Mawrth 2009.

Ffordd o Fyw

Cyllideb o £7 miliwn

Rhaglen strategol yw hon sy'n hyrwyddo ffyrdd iach a gweithgar o fyw ymysg plant a theuluoedd drwy greu dull o gydgysylltu chwarae plant, bwyta'n iach a gweithgarwch corfforol.

Mae'r rhaglen yn ceisio gwneud hynny drwy:

- Hyrwyddo dull o gydgysylltu bwyta'n iach ac ymarfer drwy brosiectau yn y gymuned sy'n gweithio gyda theuluoedd.
- Cyfrannu at y dystiolaeth am yr hyn sy'n llwyddo wrth hyrwyddo bwyta'n iach ac ymarfer ymysg plant a theuluoedd
- Datblygu gwaith cydgysylltiedig ar fwyta'n iach a gweithgarwch corfforol ar lefelau lleol a chenedlaethol.
- Datblygu cysylltiadau â chwarae plant.

Y rhai a gaiff y budd mwyaf o'r rhaglen hon fydd plant dan 12 mlwydd oed sy'n byw yng Nghymru. Gall aelodau eraill y teulu elwa drwy gymryd rhan yn y rhaglen.

Materion Iechyd Meddwl

Cyllideb o £15 miliwn

Mae'r rhaglen hon, a ddatblygwyd mewn partneriaeth â thîm o arbenigwyr sy'n gweithio ym maes iechyd meddwl ledled Cymru:

- yn hyrwyddo camau i adsefydlu a sicrhau annibyniaeth pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl difrifol.
- yn cynorthwyo pobl sydd yn y perygl mwyaf o gael problemau iechyd meddwl difrifol neu o'u lladd eu hun.

Mae'r rhaglen wedi'u hanelu'n bennaf at rai rhwng 16 a 65 oed sydd:

- â phroblem iechyd meddwl difrifol ar hyn o bryd.
- sydd yn y perygl mwyaf o gael problemau iechyd meddwl difrifol.

Nid oes dyddiad cau eto ar gyfer y rhaglen hon.

Cronfa Pobl Ifanc:

Dyma dy gyfle

Cyllideb o £1 filiwn

Mae'r rhaglen hon yn canolbwyntio ar bobl ifanc rhwng 10 a 19 blwydd oed ac yn ceisio eu helpu i fwynhau bywyd a gwireddu eu potensial yn llawn, i ddysgu sgiliau a chyfrannu i'w cymunedau a dewis agweddau meddwl pendant sy'n gwrthweithio ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Mae grantiau rhwng £500 a £5,000 ar gael i helpu pobl ifanc i arwain wrth ddatblygu'r math o brosiectau y maent yn dymuno ymgymryd â nhw. Mae'r rhaglen yn gweithredu ledled Cymru, ac mae Cronfa'r Loteri Fawr yn croesawu ceisiadau o bob sector yn y gymuned. Ni roddir grantiau i unigolion.

Os gwneir cais gan ysgol neu glwb ieuenctid statudol, rhaid dangos bod y gweithgarwch arfaethedig yn ychwanegol at yr hyn sy'n digwydd fel arfer yn yr ysgol neu'r clwb. Am resymau cyfreithiol, rhaid i o leiaf un o'r rhai ar bwyllgor rheoli'r grwp sy'n derbyn y grant fod dros 18 mlwydd oed, neu gallant wneud cais drwy fudiad arall.

Rhaid i bawb sy'n derbyn grant gyflawni un o nodau'r Gronfa Pobl Ifanc.

Rhoddir blaenoriaeth i'r canlynol:

- Grwpiau sy'n cael eu rhedeg gan bobl ifanc anabl.
- Grwpiau sy'n cael eu rhedeg gan bobl ifanc o gefndir pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig.
- Grwpiau bach sydd heb gael cyllid Loteri o'r blaen.
- Grwpiau o bobl ifanc sy'n wynebu anfantais benodol.
- Prosiectau sy'n hybu integreiddio rhwng pobl ifanc sy'n wahanol o ran eu cefndir neu eu profiadau.

Mae Cronfa'r Loteri Fawr yn croesawu ceisiadau ar gyfer prosiectau sy'n cyfuno gwahanol weithgareddau a gall ariannu prosiectau, gweithgareddau a chyfarpar y mae pobl ifanc wedi penderfynu y byddant yn gwneud gwahaniaeth iddynt hwy ac i'w bywydau.

Nid oes dyddiad cau eto ar gyfer y rhaglen hon.

Arian i Bawb Cymru

Cyllideb o £2.25 miliwn y flwyddyn

Mae'r rhaglen hon yn ceisio ariannu prosiectau sy'n cynnwys pobl yn eu cymuned leol, gan ddod â nhw at ei gilydd i fwynhau amrywiaeth fawr o weithgareddau sy'n ymwneud â threftadaeth, gwaith elusennol, iechyd, addysg, yr amgylchedd a gweithgareddau eraill ar gyfer y

gymuned. Mae grantiau rhwng £500 a £5,000 ar gael.

Bydd Cronfa'r Loteri Fawr yn ariannu prosiectau y gellir eu cwblhau mewn 12 mis i gyflawni un neu ragor o'r nodau canlynol:

- hybu gweithgarwch cymunedol
- ehangu mynediad a chyfranogiad
- hybu sgiliau a chreadigedd
- gwella ansawdd bywyd.

Mae amryw o fathau o gyrff a mudiadau a all ymgeisio. Rhaid iddynt fod yn un o'r canlynol:

- Grwp di-elw sydd â dogfen lywodraethu fel cyfansoddiad, cyfrif mewn banc neu gymdeithas adeiladu a set o gyfrifon.
- Cyngor tref neu gymuned.
- Ysgol.
- Corff iechyd.

Nid oes dyddiad cau eto ar gyfer y rhaglen hon.

Miliynau'r Bobl

Cyllideb o £66.5 miliwn (ledled y DU)

Mae'r rhaglen hon yn bartneriaeth rhwng Cronfa'r Loteri Fawr ac ITV lle bydd gwylwyr yn pleidleisio dros y prosiect y maent am iddo gael cyllid.

Yn y gorffennol, mae'r Gronfa wedi ariannu prosiectau sy'n helpu cymunedau i drawsnewid eu hamgylcheddau lleol drwy wella mannau glas, adeiladau a mwynderau.

Caiff mudiadau ymgeisio am grantiau o hyd at £80,000 ynghyd â TAW. Bydd y rhaglen bresennol yn canolbwyntio ar brosiectau sy'n helpu pobl i ddefnyddio a mwynhau eu hamgylcheddau lleol drwy:

- Wneud yr amgylchedd lleol yn lanach, yn ddiogelach ac yn wyrddach
- Gwella'r amgylchedd naturiol lleol
- Gwella dyluniad, ymddangosiad a hygyrchedd mwynderau lleol.

Mae'n agored i grwpiau cymunedol gwirfoddol, awdurdodau lleol, ysgolion a chyrff iechyd, a bydd y pleidleisiau nesaf ar y teledu yn Nhachwedd 2007.

Nid oes dyddiad cau eto ar gyfer y rhaglen hon.

Ymchwil

Cyllideb hyd at £25 miliwn (ledled y DU)

Amcan y rhaglen hon fydd dylanwadu ar bolisi ac ymarfer lleol a chenedlaethol drwy ariannu'r gwaith o gynhyrchu a lledaenu gwybodaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Yn y tymor hwy bydd y rhaglen yn ceisio datblygu gwell gwasanaethau ac ymyriadau ar gyfer y buddiolwyr.

Bydd y pum canlyniad isod yn hanfodol er mwyn cyflawni nod y rhaglen:

- Gwell dealltwriaeth o'r materion sy'n ymwneud â themâu Cronfa'r Loteri Fawr a chanlyniadau'r gwledydd.
- Mwy o gyfranogiad gan y trydydd sector a gwell gwybodaeth am ddatblygu, cyflawni a defnyddio ymchwil.
- Lledaenu ymchwil sydd wedi'i harwain gan y trydydd sector yn well.

- Mwy o gyfranogiad gan fuddiolwyr a defnyddwyr mewn amryw o rolau ymchwil.
- Gwell partneriaethau rhwng y trydydd sector ac ymchwilwyr.

Bydd y rhaglen yn cael ei harwain gan y galw. Bydd yn ariannu ymchwil feddygol a chymdeithasol ar faterion a bennir, ac a ystyrir yn bwysig, gan y sector elusennol a chymunedol gwirfoddol; yn hybu'r defnydd a'r lledaenu ar y gweithgareddau ymchwil. Un gofyniad allweddol yw bod buddiolwyr a defnyddwyr yn ymwneud â phennu'r agenda a chynnal, rheoli a lledaenu'r ymchwil.

Dim ond mudiadau yn y sector gwirfoddol a chymunedol a fydd yn gymwys i ymgeisio am gyllid. Fe'u hanogir i gysylltu â sefydliadau academaidd a chyrff ymchwil eraill ac mae cymorth ar gael iddynt gan Third Sector First, grwp cydweithredol o arbenigwyr ym maes ymchwil a pholisi cymdeithasol, i'w helpu i gymryd y camau cyntaf ym myd ymchwil ac i gyflwyno cais.

Nid oes dyddiad cau eto ar gyfer y rhaglen hon.

Manylion cysylltu:

Swyddfa'r Drenewydd
Cronfa'r Loteri Fawr, Ail Lawr, T^y Ladywell, Y Drenewydd, Powys SY16 1JB.
Ffôn: 01686 611 700
Ffacs: 01686 621 534
enquiries.wales@biglotteryfund.org.uk
www.biglotteryfund.org.uk

Swyddfa Caerdydd
6ed Llawr, 1 Ffordd y Brenin, Caerdydd CF10 3JN
Ffôn: 029 2067 8200
Ffacs: 029 2066 7275

Ymddiriedolaeth Cyfran Deg

Cyllideb o £50 miliwn (ledled y DU)

Gwelwyd bod rhai rhannau o'r DU heb elwa cymaint o arian y Loteri yn y gorffennol. Bu'r rhaglen Cyfran Deg yn helpu i newid hynny. Mae'r Ymddiriedolaeth Cyfran Deg, a grëwyd gan Gronfa'r Loteri Fawr yn 2003, yn rhan o'r ymdrech honno. Mae wedi'i thargedu ar 77 o ardaloedd ledled y DU, a'r rhai canlynol sydd yng Nghymru:

- Blaenau Gwent
- Caerffili
- Ynys Môn
- Castell-nedd Port Talbot
- Wrecsam

Mae gan bob un o'r ardaloedd uchod eu blaenoriaethau lleol sy'n ychwanegol at nodau penodol yr Ymddiriedolaeth sef:

- Meithrin gallu a chynaliadwyedd drwy gynnwys cymunedau lleol mewn penderfyniadau am arian y loteri.
- Creu cyfalaf cymdeithasol drwy ffurfio cysylltiadau rhwng ac o fewn cymunedau er mwyn hyrwyddo ymddiriedaeth a chyfranogiad.
- Gwella amgylchiadau byw drwy wella'r amgylchedd naturiol ar gyfer cymunedau.

Mae'r ymddiriedolaeth yn ymddiriedolaeth fuddsoddi i'r DU gyfan sy'n darparu gwaddol y gellir ei wario ar gyfer yr ardaloedd hynny.

Rhoddir grantiau rhwng £5,000 a £250,000 ac mae'r holl arian i'w wario erbyn 31 Mawrth 2013.

Y Rhwydwaith Sefydliadau Cymunedol (CFN) yw'r unig ymddiriedolwr yn y DU ac mae wedi penodi asiantau darparu ym mhob ardal.

Manylion cysylltu:

Y Sefydliad Cymunedol yng Nghymru,
14-16 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd,
Caerdydd, CF4 1DG
Ffôn: 029 2052 0250
susan@cfiw.org.uk
www.communityfoundations.org.uk

Cist Gymunedol SPORTLOT

Cynllun grantiau sydd wedi'i ariannu gan y Loteri Genedlaethol sydd â'r amcan o ddatblygu chwaraeon ar lawr gwlad, yn enwedig ar gyfer pobl ifanc, menywod a merched a grwpiau sydd dan anfantais. Penderfynir ar grantiau o lai na £1,000 ar lefel leol. Sefydlwyd pwyllgorau ym mhob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru sy'n cynnwys pobl leol sydd â gwybodaeth am chwaraeon yn yr ardal.

Manylion cysylltu:
Cyngor Chwaraeon Cymru,
Gerddi Sophia, Caerdydd CF11 9SW
Ffôn: 0845 045 0904
Ffacs: 029 2030 0600
scw@scw.co.uk
www.sports-council-wales.co.uk

Cronfa Dreftadaeth y Loteri

Fel corff sy'n dosbarthu arian y Loteri, mae gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri nifer o gynlluniau ariannu sydd â'r amcan o:

- Warchod a gwella nodweddion treftadaeth adeiladau, gwrthrychau a'r amgylchedd, rhai gwneuthuredig a naturiol, a fu o bwys wrth ffurfio cymeriad a hunaniaeth y DU.
- Rhoi cyfle i bawb ddysgu am eu treftadaeth, ei phrofi a'i mwynhau.
- Cadw cyfleoedd ar gyfer mynediad a mwynhad gan genedlaethau'r dyfodol.

Drwy ei gwahanol raglenni grant, mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn ceisio hybu prosiectau treftadaeth, rhai bach a rhai mawr, sydd wedi'u cyflwyno gan amrywiaeth eang o grwpiau a mudiadau.

Manylion cysylltu:
Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Swyddfa 5A, Hodge House, Guildhall Place,
Heol Eglwys Fair, Caerdydd CF10 1DY
Ffôn: 029 2023 4151
Ffacs: 029 2034 3427
wales@hlf.org.uk
www.hlf.org.uk

Cyngor Celfyddydau Cymru

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn dosbarthu arian ar ran y Loteri i brosiectau sy'n ymwneud â'r celfyddydau.

Cynllun Grantiau Cyfalaf

Cronfa ar gyfer adeiladau a chyfarpar i'r celfyddydau'n bennaf ond gall roi cymorth hefyd ar gyfer celfyddyd gyhoeddus, astudiaethau dichonoldeb a gwaith datblygu. Mae 'Grant Bach Cyfalaf' ar gael hefyd ar gyfer prosiectau sy'n werth rhwng £2,000 a £10,000.

Dyfarniadau Cymru Greadigol (£5,001 i £12,000)

Arian ar gyfer artistiaid proffesiynol, gyda'r bwriad o helpu artistiaid i wireddu eu potensial a pherffeithio eu sgiliau ac adnewyddu partneriaethau creadigol. Un o amcanion eraill y dyfarniadau yw galluogi artistiaid i dreulio amser i ffwrdd o'u hymrwymiadau arferol er mwyn canolbwyntio ar ddatblygu eu gwaith.

Dyfarniadau Cymru Greadigol Mawr (£20,000 i £25,000)

Yn ogystal â'r uchod, mae'n ofynnol i artistiaid ddangos cyflawniadau a chyfraniadau cyson yn eu maes ymarfer proffesiynol yng Nghymru.

Noson Allan – Cynllun Teithio Cymunedol

Pwrpas y cynllun hwn yw helpu grwpiau a mudiadau cymunedol i gynnal perfformiadau proffesiynol byw heb gael y risg ariannol arferol.

Manylion cysylltu:

Cyngor Celfyddydau Cymru,
9 Stryd yr Amgueddfa, Caerdydd CF10 3NX
Ffôn: 029 20 37 6500
Ffacs: 029 20 22 1447
www.artswales.org